Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

**IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD**
**11/07/2025**

**Yn bresennol:**

**Aelodau â Phleidlais** - Y Cynghorwyr:- Carwyn Elias Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Menna Trenholme (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) a Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais)** – Paul Spencer (Prifysgol Bangor), David Roberts (Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol), Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri) a Gwenllian Roberts (Grŵp Llandrillo Menai).

**Prif Swyddogion** –Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Awdurdod Lletya** – Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Uchelgais Gogledd Cymru** - Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu), Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf), Stuart Whitfiled (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) a Nia Medi Williams (Rheolwr Adnoddau a Gweithrediadau).

**Sylwedyddion** – Dewi Williams a Bryn Richards (Llywodraeth Cymru) a John Hawkins (Llywodraeth y DU)

**Eraill yn bresennol:**

Eitem 14 Andrew Hudson (Cyfarwyddwr, Zip World) a Lucy Dean (QUAD Consultancy)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Mark Pritchard yn Gadeirydd ar gyfer 2025/26.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Charlie McCoubrey yn Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda’r Cynghorydd Carwyn Elias Jones yn dirprwyo
- Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda’r Cynghorydd Menna Trenholme yn dirprwyo
- Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo
- Yana Williams (Coleg Cambria).
- Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) gyda Gwenllian Roberts yn dirprwyo.
- Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo
- Wendy Boddington (Sylwedydd Llywodraeth Cymru) gyda Dewi Williams a Bryn Richards yn dirprwyo
- Gareth Ashman (Sylwedydd Llywodraeth y DU) gyda John Hawkins yn dirprwyo

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol gan y Cynghorydd Carwyn Elias Jones a Gwenllian Roberts ar gyfer Eitem 11 gan eu bod yn gyflogedig gan Grŵp Llandrillo Menai. Nodwyd ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddynt adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

## 5. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Mai 2025 fel rhai cywir.

## 7. PROSIECTAU TRAFNIDIAETH YN Y CYNLLUN TWF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a’r Pennaeth Gweithrediadau.

**PENDERFYNIAD**

1. **Cytuno ar yr argymhelliad a’r ffordd ymlaen sy’n cael ei ffafrio - Rhaglen Tir ac Eiddo Diwygiedig (Opsiwn 2) gan nodi y byddai yn fater i’r Is-bwyllgor benderfynu ar y prosiectau fydd yn cael eu blaenoriaethu a chymeradwyaeth ariannu Cynllun Twf.**

2. **Gofyn bod y Cyfarwyddwr Portffolio yn cychwyn ar y broses newid i gynnwys yr elfennau hyn yn ffurfiol yn y Rhaglen Tir ac Eiddo.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Mawrth 2025, lansiodd Uchelgais Gogledd Cymru broses 'Mynegi Diddordeb' i ddethol prosiectau ar gyfer y Rhestr Wrth Gefn newydd a fyddai'n medru cyflwyno achosion busnes ar gyfer cyllid yn y dyfodol. Un o'r meini prawf a osodwyd oedd bod angen i brosiectau fod o fewn sgôp y pum rhaglen presennol y Cynllun Twf – Cysylltedd Digidol, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo, Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Bwyd-amaeth a Thwristiaeth.

O'r 27 Mynegiant o Ddiddordeb a gyflwynwyd, roedd pedwar yn cael eu hystyried fel rhai oedd y tu allan i sgôp y Cynllun Twf. Roedd un o'r rhain yn brosiect a oedd yn seiliedig ar refeniw ac roedd y tri arall yn brosiectau trafnidiaeth yn bennaf. Nodwyd y cyflwynwyd dau gan Lywodraeth Cymru ac un gan Gyngor Gwynedd. Dim ond un o'r

prosiectau, 'Padeswood', oedd yn cwrdd â'r trothwy sgorio i gael ei ystyried i'w gynnwys ar y rhestr wrth gefn; fodd bynnag, roedd yr adroddiad i'r is-bwyllgor yn nodi'n glir y byddai hyn yn destun penderfyniad ar wahân ar gynnwys prosiectau trafnidiaeth yn y Cynllun Twf.

Yn yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ym mis Mai, cytunwyd bod:

a) yr Is-bwyllgor yn cytuno i gychwyn proses i asesu ac adolygu'r sgôp a'r achos ar gyfer ymestyn y Cynllun Twf presennol i gynnwys prosiectau trafnidiaeth.
b) yr Is-bwyllgor yn comisiynu'r Cyfarwyddwr Portffolio i baratoi adroddiad opsiynau manwl mewn ymgynghoriad â Llywodraethau Cymru a'r DU a swyddogion y Cynghorau Cyfansoddol a Phartneriaid Addysg.
c) yr adroddiad opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor gyda'r bwriad o bennu p'un a  ddylid cychwyn y broses newid ffurfiol i sicrhau cytundeb ar gyfer y Cynllun Twf estynedig i gynnwys prosiectau Trafnidiaeth.

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno yn dilyn cais gan y bwrdd yn dilyn y cyfarfod diwethaf er mwyn gallu penderfynu a oes angen ystyried cychwyn proses newid ffurfiol er mwyn ymestyn y Cynllun Twf i gynnwys prosiectau sydd ag elfennau Trafnidiaeth ai peidio.

Eglurwyd os byddai prosiect ‘Padeswood’ yn cael ei gymeradwyo ar y Rhestr Wrth Gefn, byddai hyn yn galluogi’r posibilrwydd o ychwanegu mwy o gynlluniau ar y rhestr wrth gefn yn y dyfodol, os ydynt yn cyrraedd gofynion y Cynllun Twf. Nodwyd mai dyma’r unig gynllun a oedd yn cyrraedd y trothwyon sgorio yn dilyn proses Mynegi Diddordeb i fod ar y Rhestr Wrth Gefn a gynhaliwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2025.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol sydd wedi cael eu cyflawni cyn cyflwyno’r adroddiad hwn, gan nodi bod sgôp ehangach o raglenni wedi cael eu hystyried wrth gysyniadau’r Cynllun Twf yn wreiddiol, cyn penderfynu ar y pum rhaglen sydd eisoes yn weithredol (Cysylltedd Digidol, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo, Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Bwyd-amaeth a Thwristiaeth). Eglurwyd mai dim ond un prosiect a oedd yn cynnwys agweddau Trafnidiaeth oedd yn cael ei ystyried wrth drafod Penawdau Telerau cytundeb y Cynllun Twf yn 2019 a bu i’r prosiect hwnnw gael ei weithredu o fewn y rhaglen Ynni Carbon Isel gan ddiddymu’r angen am sefydlu Rhaglen Trafnidiaeth Strategol o fewn y Cynllun Twf. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod Trafnidiaeth yn ogystal â datblygu sgiliau a chyflogadwyedd yn parhau i fod yn feysydd allweddol.

Tynnwyd sylw bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd wedi gwneud cais yn ystod eu cyfarfod ym mis Mai 2025 bod asesiad trylwyr o wahanol opsiynau sydd ar gael er mwyn gallu cyflwyno prosiectau sydd ag agweddau Trafnidiaeth o fewn y Cynllun Twf. Nodwyd bod tri opsiwn wedi derbyn ystyriaeth gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), gan ymhelaethu arnynt fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1: Rhaglen Trafnidiaeth Newydd -** Nodwyd y golygai hyn byddai Rhaglen newydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o’r Cynllun Twf. Eglurwyd bod yr opsiwn hwn wedi cael ei ddiystyru oherwydd bod angen cyllidebau swmpus i’w wireddu ac ni fyddai’n ymarferol i’w weithredu o fewn y cyllidebau sydd ar gael.
- **Opsiwn 2: Rhaglen Tir ac Eiddo Ddiwygiedig -** Ystyriwyd addasu geiriad y rhaglen hon er mwyn amlygu y gall gynnwys prosiectau sydd ag agweddau seilwaith trafnidiaeth ar safleoedd prosiectau ac oddi ar y safleoedd pan yn gysylltiedig i ddatblygiadau. Nodwyd bod addasu’r Rhaglen i gynnwys yr eglurder hwn yn synhwyrol a chyraeddadwy.

- **Opsiwn 3: Dim newid -** Eglurwyd mai dyma'r opsiwn a fyddai wedi cael y lleiaf o effaith a chadarnhawyd bod yr opsiwn hwn wedi cael ei ddiystyru oherwydd y byddai'n golygu bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi colli cyfle i ariannu prosiectau sydd yn gallu cyfrannu i dargedau'r Cynllun Twf.

Cadarnhawyd bod dau opsiwn wedi cael eu diystyru a bod argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau eu bod yn mabwysiadu Opsiwn 2 - Rhaglen Tir ac Eiddo Diwygiedig. Adroddwyd bod cyflwyno'r addasiad hwn yn unol ag opsiwn 2 o fewn cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor hwn oherwydd ei fod yn darparu eglurder ehangach ar y gwaith a all gael ei gyflawni o fewn y Rhaglen.

Mynegwyd cefnogaeth i'r addasiad hwn i'r Rhaglen Tir ac Eiddo Diwygiedig, gan ymfalchïo ei fod yn darparu hyblygrwydd ar gyfer materion trafnidiaeth sydd yn fuddiol ar gyfer y rhanbarthol. Fodd bynnag, pwysleisiodd mai penderfyniad Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd bydd cadarnhau pa brosiectau all gael eu gweithredu drwy'r addasiad hwn.

**8. YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**PENDERFYNWYD**

**Cytuno ar y broses ar gyfer recriwtio a phenodi Ymgynghorwyr Anweithredol yn unol â gofynion Deddf Caffael 2023 a rheoliadau cysylltiedig.**

a) **Yn ogystal â'r gofynion Swydd a Phersonol a fabwysiadwyd, bydd pecyn caffael yn cael ei baratoi gyda meini prawf dyfarnu perthnasol**
b) **Hysbyseb – Bydd y rolau Ymgynghorydd Anweithredol yn cael eu hysbysebu ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru a sianeli cyfryngau cymdeithasol (Gorffennaf 2025) ac fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf**
c) **Ceisiadau – Gofynnir i ymgeiswyr sydd â diddordeb gyflwyno eu CV a'u llythyr eglurhaol yn nodi pam eu bod eisiau'r rôl (Gorffennaf 2025)**
d) **Asesu a Rhestr Fer – Bydd llythyrau eglurhaol a CVs yn cael eu hasesu yn erbyn y disgrifiadau rôl gan yr SRO a'r Prif Weithredwr a chynrychiolydd o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a chytunir ar restr fer i gael eu gwahodd i gyfweliad (ar ddyddiad i'w gadarnhau ym mis Awst)**
e) **Cyfweliadau – Yna bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu cyfweld gan banel a fydd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr SRO, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ynghyd â thrydydd aelod Etholedig o'r Is-bwyllgor (i'w gadarnhau) a fydd yn gwneud argymhellion i'w penodi i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd (ar ddyddiad i'w gadarnhau ym mis Medi) yn seiliedig ar y sgoriau terfynol ar ôl y cyfweliad.**
f) **Penodiadau – penodiadau terfynol yn cael ei gwneud gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (3 Hydref 2025)**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Cylch Gorchwyl a'r broses benodi ar gyfer Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd yn dilyn trosglwyddo'r Cynllun Twf ynghyd â chymeradwyo'r disgrifiadau rôl ar gyfer dau Ymgynghorydd Anweithredol newydd.

Awdurdododd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Prif Weithredwr dros dro i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gaffael ymgeiswyr i'w hargymell i'w penodi i Is-bwyllgor Lles Economaidd CBC.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn diweddaru Aelodau ar drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ynglŷn â recriwtio Ymgynghorwyr Anweithredol ac egluro'r broses o benodi'r unigolion hynny.

Atgoffwyd bod y penderfyniad i benodi dau Ymgynghorwr Anweithredol wedi cael ei wneud yng nghyfarfod mis Mawrth 2025 o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Eglurwyd byddai'r Ymgynghorwyr yn gweithio er mwyn cefnogi'r Cynllun Twf gan eu bod yn unigolion a fyddai gyda phrofiad sylweddol o fewn y sector breifat a masnachol. Ymhelaethwyd byddai hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau yn effeithiol.

Manylwyd byddai'r Ymgynghorwyr Anweithredol yn cefnogi swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio yn ogystal â'u penodi yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol sydd yn y broses o gael eu sefydlu. Ychwanegwyd byddent yn mynychu pwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn rôl ymgynghorol.

Adroddwyd bod cyllidebau a disgrifiadau rôl eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan gadarnhau bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau'r cyllidebau yn ogystal â'r broses penodi. Manylwyd bod y gyllideb yn caniatáu tâl o hyd at £30,000 yn flynyddol ar gyfer pob Ymgynghorydd Anweithredol, gyda £10,000 ychwanegol ar gyfer y Cadeirydd a £5,000 ychwanegol ar gyfer yr Is-gadeirydd. Cadarnhawyd bod y ffigyrau hyn o fewn yr uchafswm o £50,000 yr Ymgynghorydd a gymeradwywyd o fewn trafodaethau blaenorol.

Esboniwyd bydd yr Ymgynghorwyr Anweithredol yn cael eu penodi drwy weithdrefn gystadleuol agored, gan bwysleisio bod gofynion penodol yn cael eu dilyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Caffael 2023 ac unrhyw Reoliadau cysylltiedig. Manylwyd ar y broses recriwtio gan fanylu bydd hysbyseb yn cael ei ryddhau ar wefan y Cyd-bwyllgor hyd at ddiwedd mis Gorffennaf, gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal ym mis Medi cyn cadarnhau penodiadau yng nghyfarfod 03 Hydref 2025 o'r Is-bwyllgor hwn.

Cadarnhawyd bod Uchelgais Gogledd Cymru wedi derbyn Cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau bod yr Ymgynghorwyr yn cael eu penodi'n briodol o fewn y trefniant llywodraethu.

Croesawyd y broses o benodi Ymgynghorwyr Anweithredol gan yr Aelodau gan nodi y byddent yn ychwanegu budd mawr i brosesau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod disgrifiadau rolau'r Ymgynghorwyr Anweithredol yn gofyn iddynt oruchwylio gwaith a phrosiectau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfanrwydd gan nodi bydd elfennau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio yn rhan o'r swyddogaeth. Fodd bynnag, dymunir targedu ffocws tuag at y Cynllun Twf fel man cychwyn cyn ei ymestyn ehangach.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn hanfodol bod yr Ymgynghorwyr Anweithredol yn rhan o broses o lunio'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol o fewn eu rôl fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Cadarnhawyd bod yr amserlen o ddatblygu'r Bwrdd yn digwydd yn dilyn cadarnhau penodiadau'r Ymgynghorwyr Anweithredol. Ymhelaethwyd bydd adroddiad ychwanegol yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor hwn er mwyn manylu ar yr amserlen a chamau o sefydlu'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol pan yn amserol.

Mewn ymateb i ymholiadau ar dermau cyflogaeth yr Ymgynghorwyr Anweithredol, cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oes modd iddynt fod yn Aelodau cyfetholedig o unrhyw gyfarfod gan eu bod yn swyddogion cyflogedig. Cadarnhawyd mai cyflogi ymgynghorwyr drwy gytundeb caffael yw'r bwriad yn dilyn cyngor cyfreithiol, ac nid yw hyn yn arwain at agweddau megis cyfrannu at bensiynau fel rhan o'r gyflogaeth. Ymhelaethodd y Prif Weithredwr byddai cytundeb yr Ymgynghorwyr yn weithredol am dymor o ddwy flynedd.

Yn dilyn ymholiad ynglŷn â'r cyfweliadau, cynigwyd ac eiliwyd cynnig lle i aelod arall o'r Is-bwyllgor bod yn bresennol fel rhan o'r Panel Cyfweld. Nodwyd bod y Panel eisoes yn cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Prif Weithredwr, a'r Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) ac ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol i aelod arall o'r Is-bwyllgor bod yn bresennol i ennyn profiad a bod yn rhan o'r penderfyniad. Gwahoddwyd yr Aelodau i ddatgan diddordeb os ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r Panel a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Medi, y tu hwnt i'r cyfarfod hwn.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau

**PENDERFYNWYD**

1. **Ystyried a nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25.**
2. **Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn Dilyn ystyriaeth gan Is-bwyllgor Lles Economaidd CBC y Gogledd, caiff yr adroddiadau ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ar y gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn gan ddathlu llwyddiant y datblygiadau a welwyd er ei fod yn flwyddyn heriol.

Ymfalchïwyd bod niferoedd yr achosion busnes a gymeradwywyd wedi cynyddu a bod datblygiadau ei weld o fewn prosiectau megis y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter a Chanolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+.

Cadarnhawyd bod yr adroddiad yn manylu ar pedwerydd mlynedd y Cynllun Twf, gan gydnabod bod sylwadau allanol wedi dod i law nad oes digon wedi cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod llawer wedi cael ei gyflawni hyd yma, gan ystyried bod Pandemig byd-eang wedi bod yn ystod y cyfnod cyflawni hyd yma. Ymhelaethwyd bod hyd y Cynllun yn 15 mlynedd gyda prosiectau cymleth yn cael eu datblgu. Ystyriwyd bod natur y prosiectau yn ogystal a'r meddylfryd arloesol yn mynd i warchod y Rhanbarth ar gyfer y dyfodol tra hefyd yn Datblygu economi. Mynegwyd hyder bydd mwy o brosiectau yn cael eu cymeradwyo yn y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol gan bod gweithdrefnau cadarn mewn lle.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, cytunwyd i gynnwys diweddariadau o fewn yr Adroddiadau Chwarterol sydd yn manylu ar dargedau allweddol megis y niferoedd yr achosion busnes sydd wedi cael eu cymeradwyo, niferoedd swyddi sydd wedi cael eu creu a dangosyddion perfformiad eraill er mwyn gallu gweld os yw'r Cynllun yn

datblygu'r amserol ac yn gallu cymharu'r gwaith gyda'r blynyddoedd sydd wedi bod ac i'r dyfodol. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bydd gwaith yn cael ei wneud er mwyn ymdrechu i ddangos y data hwn mewn adroddiadau i'r dyfodol gan y byddai'n ddefnyddiol i ystyried y wybodaeth cyn cyflwyno'r Adroddiadau Blynyddol.

## 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 11-14 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

## 11. ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES LLAETH DEFAID CYMRU HWB ECONOMI GWLEDIG GLYNLLIFON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Cyfiawnhad Busnes drafft ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon ac yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghorid â'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar y fersiwn terfynol ar ôl caffael ac ymrwymo i gytundeb cyllido gyda Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer cyflawni'r prosiect, yn amodol ar Grŵp Llandrillo Menai yn mynd i'r afael â'r materion sy'n weddill a sicrhau'r holl gymeradwyaethau mewnol angenrheidiol ar gyfer y prosiect.**
2. **Nodi bydd dau gymeradwyaeth Achos Busnes arall i gyflawni'r elfennau sy'n weddill o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon ac y bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor i'w hystyried yn y dyfodol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer elfen Llaeth Defaid Cymru o brosiect Hwb Economi Wledig Glynllifon.

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes drafft yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ym mis Gorffennaf i alluogi penderfyniad amserol a fyddai'n osgoi oedi cyflawni'r prosiect. Mae caffael ar gyfer y prosiect yn fyw ar hyn o bryd a disgwylir penderfyniad ar 06/08/2025. Nid yw cyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor tan fis Hydref 2025 a byddai'n arwain at oedi i gyflawni'r prosiect pe na bai'r Achos Cyfiawnhad Busnes drafft a'r awdurdod dirprwyedig yn cael eu cymeradwyo.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 12. ACHOS BUSNES LLAWN DI-WIFR UWCH (CAMPYSAU CYSYLLTIEDIG)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr y Rhaglen Digidol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch (Campysau Cysylltiedig) gan nodi y bydd cyfnod cychwynnol dyluniad y cynllun grant ar ôl cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn angen asesiad rheoli cymhorthdai terfynol o'r Cynllun Cymhorthdal arfaethedig.**
2. **Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gytuno ar ddyluniad terfynol y cynllun grant.**
3. **Dirprwyo cyflwyno'r prosiect i'r Cyfarwyddwr Portffolio gan gynnwys dyfarniadau grant unigol dilynol yn unol â'r cynllun grant terfynol hyd at £500,000 gyda dyfarniadau grant unigol rhwng £500,000 a £1miliwn yn cael ei gwneud mewn ymgynghoriad â Chadeirydd, Is-gadeirydd, Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I geisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y Prosiect Di-wifr Uwch (Campysau Cysylltiedig).

Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect ar 20fed Medi 2024. Yn dilyn hynny, derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth y broses sicrwydd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn galluogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio i symud ymlaen gyda datblygu'r Achos Busnes Llawn.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru bellach wedi cwblhau ymgysylltu â'r farchnad cyn cymeradwyaeth y prosiect a chyflwyno Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd ar gyfer penderfyniad buddsoddi terfynol.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 13. CAIS AM NEWID CANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Cynllun Twf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r cais am newid ar gyfer y prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter ac yn gwneud y newidiadau a ganlyn:**
2. **Rhoi cymeradwyaeth ar gyfer buddsoddiad ychwanegol y Cynllun Twf o £446,041 i alluogi'r prosiect symud ymlaen i'r cyfnod cyflawni, yn amodol ar yr arian yn cael ei wario yn llawn o fewn y flwyddyn ariannol 2025-26. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynhyrchu nifer o fuddion ychwanegol, gan gynnwys cyllid cyfatebol wedi'i gadarnhau o £250,898 gan Brifysgol Wrecsam a chreu chwe swydd gyfwerth â llawn amser ar gyfer y rhanbarth.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor i'r cais am newid ar gyfer y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter ar gyfer buddsoddiad ychwanegol y Cynllun Twf.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

## 14. CAIS AM NEWID ANTURIAETHAU CYFRIFOL

**PENDERFYNWYD**

1. **Cytuno i'r cais am newid ar gyfer y prosiect Anturiaethau Cyfrifol ac yn gwneud y newidiadau a ganlyn:**
   a. **Cymeradwyo tynnu'r elfen eFws o sgôp prosiect**
   b. **Cymeradwyo'r broses datblygu a chyflawni achos busnes**
   c. **Cadarnhau bod y ddau amod sy'n weddill a osodwyd yn ystod y gymeradwyaeth i'r Achos Busnes Amlinellol wedi'u bodloni'n ddigonol ac y gall y prosiect fwrw ymlaen i gyflwyno achosion busnes ar gyfer cymeradwyaeth cyllid yn unol â'r cynnig cyflawni fesul cam yn y cais am newid.**
   d. **Gofyn am ragor o wybodaeth fanwl am y cais am newid arfaethedig i ddisodli elfen eFws y prosiect gyda datblygiad Uwch-gynllun Fforest ym Metws y Coed a bod hyn yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor nesaf ym mis Hydref i'w ystyried.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae ceisiadau am newidiadau i brosiectau gan Arianwyr Prosiectau yn faterion i'r Is-bwyllgor eu penderfynu.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 12:05.

---

Cadeirydd